

## **TGAU Gwneud-i-Gymru yn y gwyddorau**

Nod ein rhaglen ddiwygio *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* yw ail-lunio'r cymwysterau sy'n cael eu hastudio gan ddysgwyr 14-16 oed i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym wedi cynnal dau ymgynghoriad mawr ar gynigion ar gyfer TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn y gwyddorau.

Yn 2021, gwnaethom ymgynghori ar yr amrywiaeth o bynciau TGAU a fydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru ddewis ohonynt. Gallwch ddarllen y penderfyniadau o'r ymgynghoriad hwn [yma](#).

Yn 2022 gwnaethom ymgynghori ar y gofynion dylunio ar gyfer y TGAU Gwneud-i-Gymru newydd. Gallwch ddarllen y penderfyniadau o'r ymgynghoriad hwn [yma](#).

Rydym bellach wedi cyhoeddi'r Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU newydd y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl). Mae hwn yn nodi'r gofynion dylunio ar gyfer y cymhwyster hwn. Gallwch ddarllen y meini prawf cymeradwyo [yma](#).

Isod, rydym yn ateb cwestiynau rydym wedi'u derbyn am ein penderfyniadau ar gyfer TGAU Gwneud-i-Gymru yn y gwyddorau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, e-bostiwch [diwygio@cymwysterau.cymru](mailto:diwygio@cymwysterau.cymru)

### **Pa gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru fydd ar gael yn y gwyddorau o 2025?**

TGAU newydd yn y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) fydd y prif gymhwyster gwyddoniaeth fydd yn cael ei astudio gan fwyafrif sylweddol y dysgwyr sy'n dechrau ym Mlwyddyn 10 o fis Medi 2025.

Bydd TGAU gradd unigol integredig newydd hefyd ar gael ar gyfer cyfran fach o ddysgwyr a allai elwa o astudio llai o gynnwys ar lefel TGAU.

Y cymwysterau newydd hyn fydd yr unig gymwysterau TGAU fydd ar gael yn y gwyddorau.

Bydd TGAU newydd y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn disodli'r TGAU gwyddoniaeth ar wahân presennol (mewn bioleg, cemeg a ffiseg), y TGAU Gwyddoniaeth cyfredol (Dyfarniad Dwbl), a'r TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl).

Bydd y TGAU gradd unigol newydd yn y gwyddorau yn disodli'r TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol) presennol.

Bydd TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, gyda'r dyfarniad cyntaf yn haf 2027. Byddwn yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster TGAU Gradd Unigol yn hydref 2023.

### **Pam na fydd dysgwyr yn gallu dewis astudio cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân ar ôl mis Medi 2025?**

Y TGAU newydd yn y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) fydd y prif gymhwyster a fydd yn cael ei astudio gan fwyaf sylweddol y dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru. Rydym yn hyderus mai hwn fydd y llwybr cywir i'r rhan fwyaf o ddysgwyr oherwydd ei fod yn:

1. cefnogi nod y Cwricwlwm o integreiddio astudio gwyddoniaeth a datblygu sgiliau ymholi gwyddonol dysgwyr, ynghyd â rhoi sylfaen gref iddynt ym mhob un o'r disgyblaethau
2. cefnogi dilyniant yn rhwydd i addysg ôl-16 ac uwch, a chyflogaeth
3. rhyddhau lle i ddysgwyr ac ysgolion astudio amrywiaeth ehangach o bynciau
4. sicrhau mwy o ecwiti ar draws cymwysterau TGAU yn y gwyddorau yng Nghymru
5. cael gwared ar y canfyddiad bod cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân naill ai'n ofynnol, neu'n cael eu ffafrio, ar gyfer dilyniant i gyrsiau STEM mewn addysg bellach neu addysg uwch
6. symleiddio'r dewisiadau ar gyfer dysgwyr 14 oed a allai effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n astudio STEM ar ôl 16.

### **Sut fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ddilyniant dysgwyr i Safon Uwch? A fydd unrhyw addasiadau yn cael eu gwneud i Safon Uwch o ganlyniad i'r diwygiadau hyn?**

Mae TGAU newydd y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) wedi'i chynllunio'n ofalus i gefnogi dilyniant i gyrsiau UG a Safon Uwch presennol yn y gwyddorau, ac i gyflogaeth. Rydym wedi mapio'r gofynion cynnwys i'r Safon Uwch presennol ac rydym yn hyderus y bydd y TGAU dyfarniad dwbl newydd yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i unrhyw faes gwyddonol neu faes sy'n ymwneud â gwyddoniaeth. Mae'r Cymdeithasau Dysgedig hefyd yn fodlon y bydd y cymhwyster dyfarniad dwbl hwn yn cefnogi dilyniant effeithiol.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â cholegau addysg bellach. Mae colegau sy'n derbyn dysgwyr yn rheolaidd o ysgolion sydd ond yn cynnig y cymhwyster dwyradd wedi dweud wrthym nad yw hyn yn creu problem i ddysgwyr o ran eu parodrwydd a'u dilyniant i gyrsiau gwyddoniaeth UG a Safon Uwch. Roedden nhw'n teimlo y byddai'n briodol i hyn ddod yn beth cyffredin ledled Cymru gan y byddai hyn yn golygu y byddai pob dysgwr ôl-16 yn dechrau o'r un sefyllfa.

Mae ein dadansoddiad o ganlyniadau TGAU ac UG yn dangos bod cyfran debyg o ddysgwyr â graddau TGAU uchel wedi mynd ymlaen i ennill gradd A mewn pynciau gwyddoniaeth UG, p'un a wnaethon nhw astudio'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl presennol, neu'r cymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar wahân. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn yn llawn a gallwch ei ddarllen [yma](#).

### **Sut allwch chi fy sicrhau na fydd dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon wrth wneud cais i brifysgolion?**

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwnaethom gyfarfod sawl gwaith gyda dros 25 o brifysgolion a sefydliadau AU, gan gynnwys sawl sefydliad Grŵp Russell, i drafod y pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch dilyniant i addysg uwch. O'r trafodaethau hyn, a'n hymchwil ein hunain, nid ydym wedi nodi unrhyw gyrsiau prifysgol sydd naill ai'n gofyn neu'n ffafrio dysgwyr i gyflawni TGAU gwyddoniaeth ar wahân yn hytrach na dyfarniad dwbl cyfunol.

Roedd prifysgolion yn awyddus i egluro eu bod wedi arfer ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sydd wedi astudio naill ai gwyddorau ar wahân neu ddwbl, a bod yn rhaid iddynt drin pob llwybr yn gyfartal oherwydd nad yw pob ysgol (yng Nghymru ac yn Lloegr) yn cynnig TGAU gwyddoniaeth ar wahân.

Clywsom yn aml fod prifysgolion yn gwybod ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod dysgwyr o Gymru yn gwneud cais gyda chanlyniadau Safon UG, gan fod y rhain yn ddangosydd cryfach o berfformiad ar Safon Uwch - sef yr hyn y mae gan brifysgolion ddiddordeb mwyaf ynddo wrth wneud cynigion i ddysgwyr.

**Sut bydd dysgwyr yn gwybod ym mha ddisgyblaeth(au) maen nhw'n perfformio orau i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch pa bynciau i'w hastudio ar gyfer Safon Uwch a thu hwnt?**

Bydd perfformiad dysgwyr sy'n cymryd y TGAU dyfarniad dwbl newydd yn cael ei adrodd ar wahân ym mhob disgyblaeth wyddoniaeth ochr yn ochr â'u gradd gyffredinol ar gyfer cwblhau'r cymhwyster. Bydd hyn yn cael ei wneud ar adysgrif dysgwr ac yn seiliedig ar eu perfformiad mewn arholiad ym mhob un o'r unedau arwahanol ar gyfer bioleg, cemeg a ffiseg. Bydd dysgwyr yn derbyn gradd lefel uned (A\* – G) ar gyfer pob disgyblaeth ar eu hadysgrif. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i nodi ble mae eu cryfderau ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol i golegau a phrifysgolion wrth wneud penderfyniadau derbyn.

**Gall y TGAU dyfarniad dwbl presennol fod yn heriol i'w gyflawni o fewn oriau ein hamserlen. Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn awgrymu y gallai'r dyfarniad dwbl newydd gynnwys hyd yn oed mwy o gynnwys. Sut fyddwch chi'n sicrhau ei fod yn hylaw i athrawon a dysgwyr yn yr Orlau Dysgu dan Arweiniad (GLH) a osodwyd ar gyfer y cymhwyster?**

Mae cymhwyster TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn cael ei gynllunio i gael ei gyflwyno ar draws rhaglen ddysgu dwy flynedd o fewn 240-280 o Orlau Dysgu dan Arweiniad. Mater i ysgolion fydd penderfynu faint o amser i'w ddyrannu i'r cymhwyster hwn ar eu hamserlenni unigol.

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn amlinellu'r gofynion dylunio ar gyfer TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl). Y cam nesaf yw i CBAC (y corff dyfarnu) ddylunio'r cymhwyster a datblygu manyleb. Bydd hwn yn amlinellu'r cynnwys yn fwy manwl. Wrth gyflwyno'r cymhwyster i'w gymeradwyo, bydd angen i CBAC esbonio sut mae'r cynnwys yn sicrhau cydbwysedd priodol o ba mor Hylaw, Ymgysylltiol, Dibynadwy a Dilys yw'r cymhwyster.

Mewn ymateb i bryderon ynghylch maint y cynnwys a godwyd yn yr ymgynghoriad, rydym wedi:

- symleiddio asesiad yr uned *Dod â'r Gwyddorau Ynghyd* i gael gwared ar gynnwys rhyngddisgyblaethol ychwanegol a gwneud yr asesiad yn fwy hylaw i'w gyflawni
- lle bo'n briodol, wedi ffocysu a lleihau'r cynnwys sy'n benodol i'r ddisgyblaeth, gan gadw'r hyn sydd ei angen i gefnogi cynnydd.

### **Fydd TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn cael eu haenu?**

Bydd. Bydd TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn cynnwys dwy haen asesu. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn sefyll naill ai arholiad haen uwch neu haen sylfaen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr asesiadau yn hygyrch i bob dysgwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cymhwyster sy'n cael ei yrru gan gynnwys, fel gwyddoniaeth, ac mae'n adlewyrchu'r dull rydym yn ei ddefnyddio gyda TGAU Mathemateg a Rhifedd.

Bydd y corff dyfarnu yn penderfynu a fydd dysgwyr yn gallu cofrestru ar haen wahanol ar gyfer arholiadau gwahanol – a elwir weithiau yn 'gofrestriad haen gymysg'. Bydd yn rhaid i CBAC gyfiawnhau ei ddull.

### **Pam y bydd yn rhaid i ddysgwyr gwblhau o leiaf 85% o'u hasesiadau ym Mlwyddyn 11?**

Rhaid sefyll pob un o'r tri arholiad disgyblaeth-benodol (gwerth 25% yr un) ym Mlwyddyn 11 i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ym mhob disgyblaeth drwy gydol y cwrs. Bydd hyn yn helpu i gefnogi dilyniant i astudio UG a Safon Uwch mewn gwyddoniaeth - pe bai dysgwyr yn cwblhau eu harholiad ar gyfer un ddisgyblaeth ym Mlwyddyn 10, mae'n debygol mai prin fyddai eu profiad o'r ddisgyblaeth honno ym Mlwyddyn 11. Gallai hyn effeithio ar eu parodrwydd ar gyfer lefel UG yn y pwnc hwnnw.

Bydd yn rhaid cwblhau'r asesiad ymarferol (gwerth 10%) ym mlwyddyn 11 er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i gael amrywiaeth o brofiadau ymarferol a digon o amser i ddatblygu'r sgiliau hyn yn briodol.

### **Ar hyn o bryd mae fy ysgol yn dyrannu mwy o amser ar yr amserlen i TGAU gwyddoniaeth ar wahân na'r dyfarniad dwbl. Bydd y diwygiad hwn felly'n arwain at lai o oriau addysgu ar gyfer gwyddoniaeth, felly rwy'n poeni am golledion staffio. Ydych chi wedi ystyried hyn wrth wneud y penderfyniadau yma?**

Ydyn, gwnaethom ystyried effeithiau posibl ar amserlennu a staffio wrth benderfynu ar amrywiaeth a maint TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

Fel sy'n digwydd nawr, mater i ysgolion fydd penderfynu faint o oriau i'w hamserlennu a sut i ddefnyddio eu staff i gyflwyno'r TGAU gwyddoniaeth newydd.

Ar hyn o bryd, mae sut mae ysgolion yn rheoli eu hamserlenni ac yn staffio ar gyfer TGAU gwyddoniaeth yn amrywio'n sylweddol. Felly nid yw'n bosibl modelu yn union beth fydd yr effeithiau a sut y bydd ysgolion yn gwneud penderfyniadau staffio yn y dyfodol.

Byddem yn disgwyl i ysgolion barhau i gyflogi athrawon gwyddoniaeth arbenigol ag arbenigedd disgyblaeth-benodol. Mae strwythur a chynnwys y TGAU newydd yn annog y math hwn o ddull.

Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y cynnig llawn o [gymwysterau 14-16](#) i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o gymwysterau sy'n gysylltiedig â STEM, ar draws lefel Mynediad, lefel 1 a lefel 2, y gall ysgolion ddewis eu cynnig hefyd. Bydd angen i ysgolion wneud penderfyniadau ynghylch sut y byddant yn staffio cymwysterau o'r fath.

### **Pam wnaethoch chi benderfynu datblygu TGAU Gradd Unigol gyfun newydd yn dilyn ymgynghoriad 'Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru' yn 2022?**

Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'n gwaith ymgysylltu dilynol ag ystod eang o randdeiliaid, fod rhai dysgwyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at faint y cynnwys mewn TGAU dyfarniad dwbl. Clywsom hefyd fod rhai dysgwyr yn ffynnu wrth gymryd y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol) presennol ac yn mynd ymlaen i gael mynediad i amrywiaeth o gyrсияu STEM ar lefel 2 a 3, ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i yrfaoedd cysylltiedig. Roedd pryderon efallai na fydd y dysgwyr hyn yn gallu symud ymlaen i'r gyrсияu STEM hyn os nad ydynt yn gallu astudio un cymhwyster TGAU yn y dyfodol.

Mewn ymateb i hyn, penderfynom ddatblygu cymhwyster TGAU gradd unigol gyfun newydd yn y gwyddorau i gynnig llwybr amgen, mwy hygyrch na'r dyfarniad dwbl. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer dysgwyr a allai elwa o ganolbwyntio ar lai o gynnwys a bydd yn rhoi cyfle iddynt ennill cymhwyster TGAU yn y gwyddorau. Bydd y dyfarniad gradd unigol hwn yn disodli'r TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol) presennol.

Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r dull rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer TGAU Cymraeg a Saesneg.

### **Rydym yn pryderu y bydd nifer sylweddol o ddysgwyr yn cofrestru ar gyfer TGAU gradd unigol i greu mwy o le ar eu hamserlen ar gyfer pynciau eraill. Sut fyddwch chi'n sicrhau mai dim ond y dysgwyr hynny y mae'n cael ei gynllunio ar eu cyfer fydd yn cofrestru ar gyfer y cymhwyster TGAU gradd unigol newydd?**

Fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol), rydym yn disgwyl y bydd cyfran fach o ddysgwyr yng Nghymru yn astudio'r radd unigol integredig newydd ar gyfer gwyddoniaeth TGAU. Roedd 1,640 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol) yn haf 2022, a oedd yn llai na 6% o'r garfan.

Gwyddom fod ysgolion yng Nghymru eisoes â phrofiad o wneud penderfyniadau ynghylch pa ddysgwyr allai elwa o'r math hwn o gymhwyster ac rydym wedi gweithio'n agos gyda

Llywodraeth Cymru i osod disgwyliadau clir ar gyfer ei gyflenwi mewn ysgolion. Rydym yn disgwyl y bydd pob dysgwr yn treulio cyfnod tebyg yn astudio'r gwyddorau, pa bynnag gymhwyster maen nhw'n ei ddewis. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag athrawon a rhanddeiliaid eraill i gyd-greu canllawiau penodol ar y gofynion ar gyfer cynnig ysgolion i ddysgwyr 14-16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru.

### **Pam mae'r Cymdeithasau Dysgedig wedi mynegi pryderon am y diwygiadau hyn?**

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda chymdeithasau dysgedig ar y newidiadau hyn. Maen nhw'n gryf o blaid creu llwybr cyffredin trwy TGAU gwyddoniaeth ac maen nhw'n hyderus y bydd y cymhwyster dyfarniad dwbl newydd yn darparu ehangder a dyfnder digonol i gefnogi dilyniant llwyddiannus i addysg barhaus mewn gwyddoniaeth.

Fodd bynnag, maen nhw wedi nodi'n glir nad ydyn nhw'n cefnogi ein penderfyniad i greu TGAU gradd unigol newydd ochr yn ochr â'r dyfarniad dwbl, gan eu bod yn pryderu y gallai hyn arwain at system ddwy haen.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r farn hon, rydym yn parhau i fod yn hyderus bod y radd unigol yn cynnig dewis arall pwysig i gyfran fach o ddysgwyr astudio'r gwyddorau ar lefel TGAU a symud ymlaen yn llwyddiannus i ystod o lwybrau STEM ôl-16.

### **A fydd ysgolion yng Nghymru yn gallu cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau TGAU ychwanegol mewn pynciau STEM, fel Seryddiaeth neu Ddaeareg, sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan gyrff dyfarnu yn Lloegr?**

Gan ein bod bellach wedi cwblhau'r gofynion dylunio manwl ar gyfer TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, byddwn yn ystyried a fydd TGAU sy'n cael eu cynnig yn Lloegr ar raddfa raddio 9-1 ar gael mewn pynciau eraill. Byddwn yn cadarnhau'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn hon (2023).

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ni fydd cymwysterau TGAU 9-1 ar gael mewn pynciau lle mae TGAU Gwneud-i-Gymru yn bodoli. Yn yr achosion hyn, dim ond y TGAU Gwneud-i-Gymru fydd yn gymwys i gael arian cyhoeddus. I egluro, mae hyn yn golygu na fydd ysgolion yn gallu cynnig TGAU 9-1 mewn gwyddorau ar wahân.

### **Sut ydych chi wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad TGAU Gwneud-i-Gymru? Rwy'n teimlo nad yw fy marn wedi cael ei ystyried.**

Mae ein dull o ddarllen a dadansoddi pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i nodi yn ein hadroddiad Dull a Methodoleg Ymgynghori, y mae modd ei ddarllen [yma](#).

Rydym yn darllen ac yn dadansoddi pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus. Cafodd [crynodeb o'r holl bwyntiau a godwyd](#) ei gynhyrchu mewn ymateb i'r cynigion gwyddoniaeth a'r [sylwadau cwmpasog](#) a wnaed ar y cymwysterau TGAU newydd yn gyffredinol.

O ganlyniad i'r adborth a gawsom, fe wnaethom edrych eto i weld a ddylid cyflwyno cymwysterau ychwanegol ochr yn ochr â'r TGAU newydd yn y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl). Gwnaethom ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys creu cymwysterau TGAU newydd ar wahân mewn bioleg, cemeg, a ffiseg, creu cymhwyster gwyddoniaeth ychwanegol ar lefel 2, a chreu TGAU gradd unigol cyfun newydd.

I fireinio ein ffordd o feddwl, buom yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon, dysgwyr, colegau, prifysgolion, y cymdeithasau dysgedig, Estyn, CBAC, Llywodraeth Cymru, ein Gweithgor Lefel Pwnc ar gyfer 'Y Gwyddorau' a nifer o'n grwpiau eraill o randdeiliaid arbenigol.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, cadarnhawyd ein bwriad i gymhwyster TGAU newydd Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) fod y prif gymhwyster i'w astudio gan y mwyafrif sylweddol o ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru, a chreu cymhwyster gradd unigol cyfun newydd yn y gwyddorau i ddysgwyr a fyddai'n elwa o ganolbwyntio ar lai o gynnwys dros gyfnod y cwrs.

Yn seiliedig ar adborth i'r ymgynghoriad, rydym hefyd wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r [cynnig dylunio](#) gwreiddiol. Er enghraifft, rydym wedi:

- cynnwys gofyniad i bob disgyblaeth gael ei hadrodd ar wahân ar adysgrif dysgwr. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i ddeall perfformiad ym mhob disgyblaeth er mwyn gwneud penderfyniadau priodol am raglenni astudio
- penderfynu y bydd dysgwyr yn sefyll arholiadau sy'n benodol i'r ddisgyblaeth ar ddiwedd Blwyddyn 11 i helpu i hwyluso'r adroddiadau ar wahân a grybwyllir uchod
- dileu'r elfen ymchwilio *Dod â'r Gwyddorau Ynghyd* mewn ymateb i bryderon ynghylch hylawrwydd a chamymddwyn posibl. Bydd y cynnwys rhyngddisgyblaethol hwn bellach yn cael ei gyflwyno drwy themâu o dan y teitl '*Dod â'r Gwyddorau Ynghyd*', yn hytrach na'r tair uned benodol a amlinellir yn y cynnig dylunio. Bydd themâu yn cael eu datblygu gan y corff dyfarnu, eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru a byddan nhw'n cael eu rhestru'n glir yn y fanyleb. Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu gan arholiad yn seiliedig ar ddeunyddiau a gyhoeddir ymlaen llaw, fis cyn yr arholiad
- symleiddio'r cynnwys mewn ymateb i bryderon ynghylch maint y cynnwys, tra'n sicrhau y bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dilyniant llawn i UG a Safon Uwch.